# Cyfres Cynllunio: 5 - Galw ceisiadau cynllunio i mewn

Hysbysiad Hwylus | Mai 2011

## Beth yw'r broses galw i mewn?

Fel arfer, caiff ceisiadau am ganiatâd cynllunio eu hystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yw'r 22 Awdurdod Unedol a'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol. [1]

Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru'r pŵer i gymryd cyfrifoldeb dros unrhyw gais cynllunio gan Awdurdod Cynllunio Lleol, drwy ddefnyddio'i phwerau o dan Adran 77 o *Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*.[2] Yna bydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu a roddir caniatâd cynllunio ai peidio. Y broses "galw i mewn" yw hon, sy'n effeithio ar ddim ond nifer fach o geisiadau bob blwyddyn.

## Pam y caiff ceisiadau eu galw i mewn?

Mae Llywodraeth Cymru'n dweud mai:

> Yn gyffredinol, mae'n well i gynigion datblygu gael eu penderfynu'n lleol gan yr awdurdodau cynllunio sy'n adnabod eu hardaloedd, eu hanghenion a'u nodweddion sensitif. Nid yw Gweinidogion Cymru yn ymyrryd ag awdurdodaeth yr awdurdodau cynllunio lleol oni bai bod angen gwneud hynny. [3]

Fel arfer, caiff ceisiadau cynllunio eu "galw i mewn" pan fo materion cynllunio wedi codi sy'n ymwneud â mwy na'r ardal leol yn unig. Gallai'r materion hyn godi yn yr achosion a ganlyn:

- Lle gallai'r datblygiad fod yn groes i bolisïau cynllunio cenedlaethol;
- Lle gallai'r datblygiad gael effaith eang y tu hwnt i'r ardal leol;
- Lle gallai'r datblygiad fod yn bwnc llosg difrifol y tu hwnt i'r ardal leol;
- Lle gallai'r datblygiad effeithio'n sylweddol ar safleoedd sy'n bwysig o ran tirwedd, gwyddoniaeth, natur neu hanes;
- Lle gallai'r datblygiad godi materion sy'n ymwneud â diogelwch cenedlaethol; neu
- Lle gallai'r datblygiad godi materion sy'n newydd yn y maes cynllunio.

Gall yr ymgeisydd neu unrhyw barti arall sydd â diddordeb (a elwir yn Drydydd Parti), ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i wneud cais i alw cais i mewn. Rhaid gwneud hyn cyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud ei benderfyniad terfynol. Fodd bynnag, caiff y Gweinidog ddefnyddio disgresiwn i benderfynu galw cais i mewn ai peidio.

[1] Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: **Hysbysiad hwylus: Caniatâd cynllunio**
[2] *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990* (Pennod 8) (fel y'i diwygiwyd)
[3] Llywodraeth Cymru: **Polisi Cynllunio Cymru *(Argraffiad 4)***: adran 3.12.1

Gall 'Cyfarwyddiadau' amrywiol hefyd ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol roi gwybod i Lywodraeth Cymru ynghylch ceisiadau a fyddai, os cânt eu cymeradwyo:

1. Yn gwyro'n sylweddol oddi wrth bolisïau datblygu sydd wedi'u cymeradwyo (gelwir y rhain yn geisiadau gwyro); neu
2. Caniatáu i agregau gael eu tynnu o fewn Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol; neu
3. Effeithio ar faes glanio neu faes awyr; neu
4. Effeithio ar adeilad Gradd I neu adeilad Gradd II, neu unrhyw adeilad rhestredig a gaiff gymorth grant o dan y *Ddeddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953*; neu
5. Yn golygu adeiladu gofod adwerthu sy'n fwy nag 20,000 metr sgwâr.

Ar sail cyfartaledd blynyddol dros y cyfnod 2005-10, cafodd Llywodraeth Cymru gais i alw 54 cais y flwyddyn i mewn, ac fe'i hysbyswyd o 39 cais arall y flwyddyn o dan y 'Cyfarwyddiadau' amrywiol a nodir uchod. O'r cyfanswm hwn o 93, dim ond 12 y flwyddyn a alwyd i mewn mewn gwirionedd.

Ym mis Mawrth 2011, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cynigion i adolygu'r 'Cyfarwyddiadau', gyda'r nod o leihau nifer y ceisiadau y mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol eu hanfon at Lywodraeth Cymru.

## Beth sy'n digwydd pan fydd ceisiadau'n cael eu galw i mewn?

Bydd Llywodraeth Cymru'n penodi Arolygydd Cynllunio i ymdrin â'r cais a alwyd i mewn. Bydd yr arolygydd yn penderfynu'r drefn i'w dilyn; y weithdrefn ysgrifenedig, gwrandawiad cyhoeddus neu ymchwiliad cyhoeddus. Dyma'r gweithdrefnau a ddefnyddir i benderfynu ar apeliadau cynllunio.[4] Os cynhelir gwrandawiad cyhoeddus neu ymchwiliad cyhoeddus, mae gan y canlynol hawl i gymryd rhan, yn ogystal â'r ymgeisydd:

- Yr Awdurdod Cynllunio Lleol;
- Y cyngor tref neu gymuned (os y cyflwynodd sylwadau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol);
- Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill os yw safle wedi'i leoli y tu fewn i'w hardal ond nad hwy yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol;
- CADW, os oedd rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol roi gwybod iddo am gais perthnasol am ganiatâd adeilad rhestredig;
- Unrhyw barti statudol; ac
- Unrhyw berson sydd wedi cyflwyno datganiad achos neu ddatganiad amlinellol.

[4] Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: **Hysbysiad hwylus: Apeliadau**

Bydd y gwrandawiad a'r ymchwiliad ar agor i'r cyhoedd. Gall aelodau'r cyhoedd gymryd rhan yn ôl disgresiwn yr Arolygydd.

Fel arfer, mae ymchwiliad yn dilyn y drefn ganlynol:

- Gwneir datganiad agoriadol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac yna caiff unrhyw dystion eu galw i roi tystiolaeth;
- Yr ymgeisydd sydd â'r hawl i ymateb olaf;
- Y cyfranogwyr yn gwneud eu datganiadau;
- Bydd gan yr ymgeisydd, yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac unrhyw barti statudol gyfle i groesholi'r tystion.

Yna bydd yr Arolygydd yn cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru yn nodi'r canfyddiadau a'r argymhellion sy'n codi o'r weithdrefn ysgrifenedig, y gwrandawiad neu'r ymchwiliad. Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y rhain ac yn penderfynu a gaiff y cais ei gymeradwyo. Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Gweinidog. Fodd bynnag, efallai y bydd y penderfyniad yn amodol ar adolygiad barnwrol mewn rhai amgylchiadau.

## Rhagor o wybodaeth

### Llywodraeth Cymru

Mae **adran gynllunio** gwefan Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth, sy'n cynnwys:

- ***Polisi Cynllunio Cymru***; prif ddatganiad polisi cynllunio yng Nghymru: a
- ***Cylchlythyr 07/2003: Gweithdrefnau ar gyfer Apeliadau Cynllunio (ac Apeliadau Tebyg) a Galw Ceisiadau Cynllunio i Mewn.***

### Arolygiaeth Gynllunio Cymru

Mae'r **Arolygiaeth Gynllunio** yn asiantaeth weithredol o Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi'r broses gynllunio yn ei chyfanrwydd. Mae wedi llunio ***canllawiau ar gyfer ceisiadau a elwir i mewn.***

### Cymorth Cynllunio Cymru

Mae **Cymorth Cynllunio Cymru** yn sefydliad elusennol sy'n helpu unigolion a chymunedau **cymwys** i gyfrannu'n fwy effeithiol at y system gynllunio. Mae'n darparu gwasanaethau cynghori gan gynnwys llinell gymorth.

### Y Porth Cynllunio

Y **Porth Cynllunio** yw adnodd rheoliadau adeiladu a chynllunio Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y system gynllunio yn Nghymru, er bod peth o gynnwys y wefan yn berthnasol i Loegr yn unig.

Hysbysiadau hwylus eraill gan y Gwasanaeth Ymchwil sy'n ymwneud â chynllunio:

- **Polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru;**
- **Polisi cynllunio lleol yng Nghymru;**
- **Datblygiadau nad oes angen caniatâd cynllunio arnynt;**
- **Caniatâd cynllunio;**

- **Apeliadau;**
- **Gorfodi;**
- **Offer telathrebu**

I gael rhagor o wybodaeth am alw ceisiadau cynllunio i mewn, cysylltwch â **Graham Winter** yn y Gwasanaeth Ymchwil (**Graham.Winter@cymru.gov.uk**).

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Ymholiad rhif: 11/0269**
**Graham Winter**